



Wrth iddynt ddatblygu

Smotiau Sefydlog

Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?

Anogwch y plant i archwilio'r canlynol:

- Cyflawni gweithrediadau tebyg i'r rhai a ddefnyddir ar Gerdyn Sgiliau Technegol Ymwybyddiaeth o'r Corff, ond gyda gwrthrych
- Cydbwyso gwrthrychau ar amrywiol rannau'r corff wrth orwedd, eistedd, penlinio a sefyll
- Rhoi gwrthrych(au) mewn amrywiol fannau o'u hamgylch tra'u bod nhw'n aros ar eu smotyn
- Archwilio symudiadau sy'n golygu bod rhan o'r corff yn croesi llinell ganol y corff, e.e. eistedd a rhoi eu troed dde dros eu coes chwith, ac ati
- Archwilio maint eu 'swigen' trwy osod/dal y gwrthrych(au) cyn belled ag y gallant o'r smotyn, gan gadw un rhan o'u corff ar y smotyn, er mwyn diffinio ymylon eu 'swigen'
- Pasio gwrthrych(au) o un rhan i ran arall o'u corff
- Symud gwrthrych(au) ar hyd amrywiol rannau'r corff
- Cydbwyso gwrthrych ar fat, a symud y bat o amgylch eu corff
- Taflu gwrthrych i fyny'n ofalus, a'i atal rhag burw'r llawr drwy ei gasglu/ei stopio/ei ddal/ei drapio â rhan o'u corff



Adnoddau

- Marcwyr dros dro/marciau sial
- Bagiau ffa
- Teganau meddal
- Rhubanau/sgarffiau
- Coetiau
- Amrywiaeth o beli
- Amrywiaeth o fatiau

Cwestiynau

- Pa fan sydd hawsaf i chi gydbwyso gwrthrych arno?
- Pa fan sydd anoddaf i chi gydbwyso gwrthrych arno?
- Pam mae maint 'swigen' pob unigolyn yn wahanol?
- Pa wrthrych rydych fwyaf hoff o'i symud o amgylch eich corff?
- P'un sydd hawsaf – cydbwyso gwrthrychau wrth i chi symud yn araf neu gydbwyso gwrthrychau wrth i chi symud yn gyflym?
- Beth arall allech chi ei wneud?

Geiriau allweddol

- Enwau rhannau'r corff
- Gorwedd, eistedd, penlinio, sefyll
- Cydbwyso, pasio, symud, gwrthio, llywio, cario, dal, gafael, gwasgu, casglu, rhoio, stopio
- Estyn, ymestyn, lle personol
- I fyny, i lawr, allan, mewn, ar, dan, o amgylch, ar hyd, dros, y tu ôl i, y tu blaen i, wrth ochr, ar ben, drwy, yn agos at, ymhell i ffwrdd

Cyfleoedd i:

- ddatblygu rheolaeth gynyddol ar symudiadau mawr y corff
- adnabod a defnyddio gwahanol ddarnau o offer
- dangos gwell cydbwysedd a sgiliau cydsymud

Diogelwch a threfn

Sicrhewch:

- bod yr arwyneb yn lân ac yn rhydd o rwystrau
- bod y plant yn gweithio yn eu 'swigod'

A allwch chi weld y plentyn?

- Yn datblygu rheolaeth gynyddol ar symudiadau mawr y corff?
- Yn adnabod ac yn defnyddio gwahanol ddarnau o offer?
- Yn dangos gwell cydbwysedd a sgiliau cydsymud?

weithiau

gan amlaf

Anogwch y plentyn i:

- ganolbwyntio ar un weithred ar y tro
- ymarfer ei sgiliau Ymwybyddiaeth o'r Corff gan ddefnyddio'r Cardiau Sgiliau Technegol
- copio plentyn arall neu ymarferwr
- trafod pa wrthrychau allai fod hawsaf iddo'u cydbwysu, a thrafod pa rannau o'r corff allai fod hawsaf iddo gydbwysu pethau arnynt
- gweithio gyda phlentyn arall fel bod y naill yn helpu'r llall

Anogwch y plentyn i:

- gopio gweithrediadau plentyn arall yn gywir
- chwarae 'Mae Seimon yn dweud'
- addasu rhigymau a chaneuon traddodiadol, e.e. 'Ar y smotyn safodd Tom' i alaw 'Pen, ysgwyddau, coesau, traed', ac ati
- disgrifio'i weithrediadau ef neu weithrediadau plentyn arall gan ddefnyddio iaith ynghylch safle
- adnabod agweddau tebyg ac agweddau gwahanol yn ei weithrediadau ef a gweithrediadau plentyn arall
- cyfnewid un neu ddau/ambell/pob marciwr am ddarn o gyfarpar bach, e.e. tegau meddal/bag ffa/cylch/rhaff sgipio/pêl, ac ati

Cyfleoedd campus

- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu: Llafaredd – gurando ar gyfarwyddiadau ac ymateb iddynt, ac ymestyn eu geirfa drwy weithgareddau sy'n annog eu diddordeb mewn geiriau
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd: Fi fy hun a phethau byw eraill – dysgu enwau a lleoliadau prif rannau allanol y corff, ac arsylwi gwahaniaethau rhyngddynt nhw a phlant eraill